**Y Pwyllgor Busnes** **BC195-00(terfynol)**

COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 20 Mehefin 2000
**Amser:** 10.45am
**Lle:** Ystafell y Dirprwy Lywydd (A3.10)

**Yn bresennol:** Dirprwy Lywydd, Cadeirydd
Y Trefnydd Busnes
Jocelyn Davies, Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Jenny Randerson, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
John Lloyd, Clerc y Cynulliad
Barbara Wilson, Dirprwy Glerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Sherry Rees, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifenyddes Bersonol y Trefnydd Busnes
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Personol y Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6)

## 1. Ymddiheuriadau

1.1 Ieuan Wyn Jones. Jocelyn Davies yn bresennol ar ei ran yn unol â Rheol Sefydlog 13.3.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

2.1 **BC164-00 (cyfarfod ar 6 Mehefin)** – derbyniwyd y cofnodion wedi nodi un gwall teipio ym mharagraff 3.3.

2.2 **BC169-00 (cyfarfod ar 13 Mehefin)** – newidiwyd ychydig ar baragraff 5.1.

## 3. Materion yn codi

3.1 Trafodwyd y rhain wrth iddynt godi ar yr agenda.

## 4. Materion a gyfeiriwyd ymlaen o'r Cyfarfod Llawn

4.1 Dim.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ynghylch gweithdrefnau

5.1 Trafodwyd papurau BC156-00 ynghylch symud y cyfarfod llawn o ddydd Mercher i fore dydd Iau a BC166-00 ynghylch barn y BBC, gyda'i gilydd. Dywedodd y Trefnydd Busnes nad oedd ei grŵp ef wedi dod i benderfyniad eto. Yr oedd wedi dweud wrth yr aelodau y byddai angen penderfyniad erbyn yr wythnos ganlynol.
**Gweithredu: y Trefnydd Busnes**

5.2 Trodd y Pwyllgor at bapur BC185-00 sy'n amlinellu'r dewisiadau adolygiedig ar gyfer wythnosau etholaethol dros gyfnod y Nadolig a barn y staff am ddewis 2. Dywedodd y Dirprwy Lywydd na fyddai dewis 2 yn rhoi llawer o gyfle i nifer fechan o staff y Swyddfa Gyflwyno i gymryd eu gwyliau blynyddol dros y Nadolig oherwydd yr angen am glerc ar ddyletswydd drwy gydol y cyfnod hwn. Pe bai cyfarfodydd Pwyllgor yn cael eu trefnu ar gyfer 11 Ionawr, sef y dyddiad dychwelyd awgrymedig, bydd hyn hefyd yn gosod cyfyngiadau ar Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau gan y byddai'n rhaid iddynt ddychwelyd o leiaf wythnos cyn hynny.

5.3 Nodwyd bod y grŵp Ceidwadol yn ffafrio dewis 1 o hyd. Gan y byddai dewis 2 yn cael yr un effaith ar staff cynorthwyol, dywedodd Jocelyn Davies mai dewis 1 fyddai orau gan grŵp Plaid Cymru hefyd. Cytunodd y Pwyllgor i nodi mai dewis 1, sef dydd Llun 18 Rhagfyr tan ddydd Gwener 12 Ionawr 2001, fyddai wythnosau etholaethol y Cynulliad dros gyfnod y Nadolig.

5.4 Dywedodd Jenny Randerson y dylai Swyddfa'r Llywydd ystyried trefnu bod staff ychwanegol ar gael i weithio yn y Swyddfa Gyflwyno er mwyn sicrhau bod y staff yn medru cymryd gwyliau a chadw'r Swyddfa ar agor. **Gweithredu: i'w ystyried gan reolwyr Swyddfa'r Llywydd**

5.5 Nododd y Pwyllgor bapur BC186-00 oedd yn amlinellu canllawiau'r Cynulliad nas cymeradwywyd hyd yma. Yr oedd manylion canllawiau eraill a dynnwyd oddi ar y fewnrwyd tra'u bod yn cael eu hadolygu yn atodiad i'r papur. Byddai'r Pwyllgor yn cael manylion ynghylch datblygiad y rhain o bryd i'w gilydd. **Gweithredu: Aelodau a Gwasanaethau Canolog i ddarparu'r wybodaeth**

5.6 Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid darparu ffeil ddalen-rydd o holl ganllawiau'r Cynulliad (gan gynnwys y Rheolau Sefydlog) yn ogystal â'r Llawlyfr arfaethedig i Aelodau ar y fewnrwyd gyda hyper-gysylltiadau i bob canllaw. Cytunwyd y dylai'r ffeil ddalen-rydd wahanu canllawiau'r Cynulliad a chanllawiau'r Llywydd ac y dylid paratoi ffeil yn enghraifft i'r rheolwyr busnes. Yr aelodau a'u staff fyddai'n gyfrifol am ddiweddaru'r rhain pan fyddai staff Swyddfa'r Llywydd yn rhoi gwybod iddynt fod y canllawiau wedi'u diweddaru. **Gweithredu: Aelodau a Changen y Gwasanaethau Canolog i ddarparu enghraifft o'r ffeil**

## <u>6. Y Pwyllgorau</u>

6.1 Trodd y Pwyllgor at bapur BC187-00 ynghylch rôl y Pwyllgorau Rhanbarthol. Rhoddodd Marie Knox fraslun o gynnwys y papur a luniwyd wedi ymgynghori ag Aelodau. O ganlyniad i'r ffigurau presenoldeb a'r diffyg cworwm ar adegau, dywedodd y dylid anfon e-bost at aelodau fis cyn Cyfarfodydd y Pwyllgorau er mwyn cael gwybod pwy fyddai'n bresennol. Yn ogystal â hyn, gofynnodd Marie Knox am farn y Rheolwyr Busnes. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i gyfarfod cadeiryddion y Pwyllgorau Rhanbarthol y noson honno. Ym marn y Trefnydd Busnes, dylai mwy o ffocws fod i waith y Pwyllgorau Rhanbarthol a dylent groesgyfeirio mwy â pholisïau'r Cynulliad. Awgrymodd y gallai gwahodd Cadeiryddion y Pwyllgorau Rhanbarthol i gyfarfodydd Panel y Cadeiryddion o bryd i'w gilydd fod yn gam ymlaen. Er bod Jenny Randerson yn deall yr angen i'r

pwyllgorau gael mwy o ffocws credai ei bod yn bwysig iddynt gael digon o ryddid i drafod materion lleol, er enghraifft, byddai amaethyddiaeth yn amlycach yn y pwyllgorau sy’n cynrychioli ardaloedd gwledig. Dywedodd y dylid annog y cyhoedd i fynd i’r cyfarfodydd.

6.2 Awgrymodd Jocelyn Davies y dylai’r sesiynau agored fod yn hirach er mwyn sicrhau trafodaeth â’r cyhoedd ac y dylid eu cynnal ar ddechrau’r cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod Aelodau sy’n gadael yn gynnar yn bresennol yn ystod y drafodaeth bwysig hon. Nodwyd bod mwy o Ysgrifenyddion y Cynulliad yn aelodau o rai Pwyllgorau Rhanbarthol a bod hi’n haws iddynt hwy gynnig atebion gan y Weithrediaeth. Er y byddai’n help pe bai Ysgrifenyddion y Cynulliad a Chadeiryddion Pwyllgorau Pwnc yn mynychu’r cyfarfodydd er mwyn ateb cwestiynau, ni fyddai hynny’n ymarferol oherwydd prysurdeb.

6.3 Ym marn William Graham byddai cynnal un Cyfarfod Rhanbarthol bob tymor yn ddymunol ond dywedodd hefyd y dylai’r Cynulliad fynd ati o ddifrif i dynnu sylw’r cyhoedd atynt. Cytunwyd ar y pwyntiau isod er mwyn diwygio’r papur a’i gylchredeg i’r Aelodau cyn y ddadl yr wythnos nesaf:

- Y Pwyllgorau Rhanbarthol eu hunain ddylai benderfynu pa mor aml y maent yn cyfarfod (naill ai unwaith neu ddwywaith y tymor) ac a ddylai’r agendâu fynd i’r afael â materion sy’n ymwneud yn fwy uniongyrchol â pholisïau’r Cynulliad
- Dylai’r Pwyllgor Busnes gael rhestr o’r aelodau sy’n bresennol mewn er mwyn gweld pa mor aml y maent yn mynychu cyfarfodydd
- Byddai cynnal sesiynau cwestiwn ac ateb y cyhoedd ar ddechrau Pwyllgorau Rhanbarthol yn ddefnyddiol
- Rhaid mynd i’r afael o ddifrif â hysbysebu a chyhoeddusrwydd
- Rhaid i’r grwpiau gwleidyddol drafod a oes disgwyl i’w haelodau fynychu Pwyllgorau Rhanbarthol

6.4 Wrth drafod papur BC188-00 ynghylch y ddadl am y Pwyllgorau Rhanbarthol, dywedodd y Trefnydd Busnes na ddylai’r ddadl ganolbwyntio ar adroddiadau’r pwyllgorau rhanbarthol yn unig ond y dylid hefyd drafod rôl y pwyllgorau. Dywedodd mai awr (fan bellaf) fyddai hyd y drafodaeth. Ef fyddai’n agor a chau’r drafodaeth ar ran y Weithrediaeth a byddai Cadeiryddion y Pwyllgorau Rhanbarthol yn cael tua phum munud er mwyn trafod eu hadroddiadau. Cadarnhaodd Marion Stapleton y byddai’n drafftio cynnig *nodi*. Byddai Marie Knox yn e-bostio copi diwygiedig o’r papur at aelodau cyn y ddadl yr wythnos nesaf. **Gweithredu: Marie Knox**

## 7. Busnes sydd ar y gweill

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft diwygiedig (BC189-00).

**Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau sy’n cychwyn ar 26 Mehefin a 3 a 10 Gorffennaf 2000**

7.2 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd Busnes ynghylch ei ddatganiad am drefn busnes y Cynulliad yn ystod yr wythnosau sy'n dechrau ar 26 Mehefin a 3 a 10 Gorffennaf oedd y dylid dilyn y drefn a eglurir yn y datganiad busnes drafft diwygiedig.

7.3 Dywedodd y Trefnydd Busnes fod Tom Middlehurst wedi cynnig rhoi datganiad llafar neu ysgrifenedig ynghylch Canolfan y Mileniwm y diwrnod canlynol. Yn ôl y Dirprwy Lywydd, efallai na fyddai lle ar agenda'r cyfarfod llawn hwnnw. Cytunodd y Trefnydd Busnes i ystyried amseriad a natur ddadleuol y mater cyn penderfynu.

7.4 Nodwyd bod problemau wedi codi wedi i'r Pwyllgor Deddfau gael golwg fanwl ar y gorchymyn drafft i ystyried newid bathodynnau oren pobl anabl am rai glas yr UE. Nodwyd nad oedd y ddeddf alluogi'n caniatau trefn apelio ond byddai dileu'r ddarpariaeth hon yn mynd yn groes i Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop. Byddai dadl ar y cynnig i dderbyn egwyddor y gorchymyn yn cael ei chynnal yn y cyfarfod llawn yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, a'r gorchymyn ei hun yn cael sylw yn y dyfodol, wedi i'r problemau gael eu datrys. Nodwyd y gellid dilyn gweithdrefn y Weithrediaeth er mwyn derbyn y gorchymyn. Ym marn Jocelyn Davies, y Cynulliad ei hun ddylai benderfynu a ddylai'r system apelio fod yn rhan o'r gorchymyn ai peidio. Fodd bynnag, dywedodd y Trefnydd Busnes fod y Weithrediaeth o'r farn na ddylid cynnig deddfwriaeth wallus. Dywedodd David Lambert y byddai angen diwygio'r ddeddf alluogi. Ni allai llys farnu bod yr offeryn statudol yn anghyfreithlon am fod y ddeddf alluogi'n mynd yn groes i'r confensiwn. Byddai'r paragraff am y drefn apelio'n cael ei ailysgrifennu'n ofalus.

7.5 Dywedodd Marion Stapleton bod chwech o orchmynion Rhan 2 ynghylch marchnata hadau, a oedd i'w trafod yr wythnos ganlynol, wedi eu gohirio. Digwyddodd hyn am mai dim ond newydd gael canlyniadau ymgynghoriad MAFF yr oedd y swyddogion. Yn ôl Cyfeillion y Ddaear (Lloegr), nid oedd y Gorchmynion yn ddigon llym. O ganlyniad i'r sylwadau hyn, dywedodd bod Christine Gwyther, Ysgrifennydd Amaethyddiaeth y Cynulliad, wedi gofyn i'w swyddogion adolygu'r Gorchmynion er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisi'r Cynulliad ar organebau wedi'u haddasu'n enetig.

7.6 Gofynnodd Jocelyn Davies pryd y byddai dadl ar safle tirlenwi Nantygwyddon yn cael ei threfnu. Dywedodd y Trefnydd Busnes bod Plaid Cymru wedi cytuno ar ddau gynnig blaenorol cyn newid ei meddwl ar y funud olaf. Dywedodd Jocelyn Davies na ddylai'r Trefnydd Busnes beidio â chyflwyno cynigion rhag ofn i'r gwrthbleidiau gyflwyno gwelliannau. Cytunodd William Graham gan ychwanegu bod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno y dylid cynnal dadl yn y gorffennol. Nododd y Dirprwy Lywydd siom y Pwyllgor nad oedd y ddadl wedi ei chynnal eto. Dywedodd y Trefnydd Busnes nad pryder ynghylch gwelliannau a berodd iddo beidio â chyflwyno cynnig, ond yn hytrach bod y cynnig yn awgrymu y dylai Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth gynnal ymchwiliad i safle Nantygwyddon. Credai fod y trywydd hwn angen cefnogaeth pob un o'r pleidiau ac na allai gyflwyno cynnig heb gefnogaeth drawsbleidiol. Ychwanegodd y Trefnydd Busnes bod y Weithrediaeth hefyd wedi'i siomi. Cynigiodd y Dirprwy Lywydd na ddylid parhau i drafod y mater yn y Pwyllgor Busnes ac y dylai Jocelyn Davies fynd i'r afael â'r mater y tu allan i'r Pwyllgor.

7.7 Gofynnodd William Graham i'r Trefnydd Busnes gyflwyno cynnig ynghylch rheolaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Dywedodd y Trefnydd Busnes y byddai arweinwyr y pleidiau'n trafod hyn mewn cyfarfod arfaethedig.

7.8 Trafodwyd yr anghytuno a fu ynghylch caniatáu cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol am ddadl plaid leiafrifol yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw ai peidio. Penderfynodd David Lambert bod y cynnig yn ddilys oherwydd darpariaethau'r Ddeddf, y penderfyniad y cytunwyd arno gan y Cynulliad i drosglwyddo'r swyddogaethau i'r Prif Ysgrifennydd a'r Rheolau Sefydlog. Yr oedd y Trefnydd Busnes yn poeni fod hyn yn groes i gyngor y Cwnsler Cyffredinol ac na ellid ei dderbyn hyd yn oed pe byddai'r Cynulliad yn pleidleisio o'i blaid. Dywedodd John Lloyd na allai'r Llywydd wrthod cynnig heb fod yn gwbl bendant nad oedd yn cyd-fynd â darpariaethau'r Ddeddf neu'r Rheolau Sefydlog. O ganlyniad nid oedd o anghenraid yn anghytuno â'r farn a fynegwyd ynghylch canlyniadau posibl y fath benderfyniad.

7.9 Dywedodd Jenny Randerson nad oedd y ddogfen y cyfeiriwyd ati yn y cynnig i dderbyn Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru a Lloegr) 2000 ar gael pan gyflwynwyd y cynnig. Penderfynodd gyfeirio at hyn yn ystod y Pwyllgor Busnes yn hytrach nag yn y Cyfarfod Llawn y tro hwn ond credai y dylid osgoi arferion gwael. Dywedodd Marion Stapleton y byddai'n edrych ar hyn ac yn cysylltu â Jenny Randerson wedi iddi wneud hynny. **Gweithredu: Marion Stapleton**

## 8. Is-ddeddfwriaeth

8.1 Trodd y Pwyllgor at bapur BC193-00 oedd yn rhestru'r gorchmynion drafft a ddylai ddilyn y drefn gyflym. Gofynnwyd i Marion Stapleton newid y datganiad busnes drafft er mwyn eu dangos ar agenda 4 Gorffennaf neu wedi hynny (wedi derbyn y diwygiad i reol sefydlog 22.23A) **Gweithredu: Marion Stapleton**

### Rheoliadau Diwygio (Rhif 3) y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2000

8.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC191-00 sy'n cynnig cyngor gan Jane Hutt, Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad, ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod nhw'n hapus â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor. Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod er mwyn gwneud datganiad yn ystod busnes y prynhawn. **Cadarnhaodd y Dirprwy Lywydd nad oedd yn rhaid cyfeirio'r gorchymyn at y pwyllgor pwnc.**

### Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid)(Diwygio)(Cymru) 2000

8.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC191-00 sy'n cynnig cyngor gan Jane Hutt, Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad, ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod nhw'n hapus â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon

y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor. Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod er mwyn gwneud datganiad yn ystod busnes y prynhawn. **Cadarnhaodd y Dirprwy Lywydd nad oedd yn rhaid cyfeirio'r gorchymyn at y pwyllgor pwnc.**

**9. Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog**

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor gynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 22 er mwyn darparu trefn gyflym i ystyried gorchmynion drafft sy'n annadleuol, yn dechnegol neu angen eu diweddaru'n flynyddol. Yn amodol ar benderfyniad y Pwyllgor, cynigwyd y dylid cyflwyno'r cynnig yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw i'w drafod yr wythnos ganlynol. Byddai hyn yn caniatáu i weithdrefnau newydd gael eu gweithredu cyn wythnosau etholaethol yr haf. Derbyniodd y Pwyllgor yr awgrym. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i gyflwyno Adroddiad y Pwyllgor Busnes; Marion Stapleton i gyflwyno'r cynnig.**

9.2 Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r drafodaeth ynghylch adroddiad y Gweithgor Is-ddeddfwriaeth tan y cyfarfod ar ddydd Mercher 28 Mehefin.

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

10.1 Dim.

**11. Unrhyw fusnes arall**

11.1 Dim.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**